

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid Arfaethedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Crynodeb o ymatebion rhanddeiliaid

11 Chwefror 2021

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn ar 2 Hydref 2020 a daeth i ben ar 13 Tachwedd 2020.

Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio sylwadau gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill â diddordeb ar y cynnig i ddrafftio deddfwriaeth ddomestig yn gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 gan sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol a diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad dros e-bost neu drwy'r post.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny a ymatebodd, ac isod mae tabl o ymatebion yn nhrefn y grwpiau a ymatebodd.

Dyma'r prif gynigion y gofynnwyd am sylwadau arnynt yn yr ymgynghoriad:

- Drafftio deddfwriaeth ddomestig sy'n darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 gan sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol a diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC yng Nghymru.

Mae colofn olaf y tabl yn nodi ymatebion ystyriol yr ASB i sylwadau'r rhanddeiliaid.

Mae rhestr o'r rhanddeiliaid a ymatebodd ar gael ar ddiwedd y ddogfen.

Crynodeb o'r prif sylwadau

Grŵp

Ymatebydd	Sylw	Ymateb
<p>Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid (NOAH)</p>	<p>Ydy, mae NOAH yn cefnogi asesiad effaith y Rheoliad a'r cynigion a amlinellwyd gan yr ASB.</p> <p>Mae aelodau NOAH yn credu bod gweithredu a gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 ledled y Deyrnas Unedig (DU) yn angenrheidiol ac yn briodol.</p> <p>Er bod aelodau NOAH yn cydnabod bod diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn faterion datganoledig yn y DU, byddai cymryd dull unffurf ledled y DU ar y mater hwn yn fuddiol i iechyd a lles anifeiliaid ac i sicrhau bod cynnyrch ar gael.</p> <p>Mae'n hanfodol nad yw'r newidiadau rheoliadol hyn yn arwain at yr angen i dynnu cynhyrchion sy'n bodoli eisoes yn ôl neu eu hailasesu mewn unrhyw ffordd yn enwedig lle nad oes pryderon o ran diogelwch anifeiliaid na phobl yn dilyn y defnydd ohonynt ar y farchnad am nifer o flynyddoedd. Mae angen eglurhad ar y broses a sut y mae'n rhaid i gwmnïau wneud cais ar gyfer defnydd arfaethedig i'w gyflwyno ar farchnad y DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio.</p> <p>Mae pryder hefyd y bydd rhai newidiadau yn ofynion sylweddol i fusnesau a'r dulliau rheoleiddio y mae'n rhaid iddynt eu dilyn. Efallai nad yw hyn yn wir am bob cwmni, ond fe fydd yn achos rhai, ac mae angen i'r ASB ystyried hyn, yn enwedig er mwyn gwneud yn siŵr bod anghenion busnesau bach a chanolig yn cael eu diwallu ac nad ydynt yn cael eu</p>	<p>Mae Rheoliad y Comisiwn (UE) 2020/354 yn diddymu ac yn disodli Cyfarwyddeb 2008/38/EC ac yn sefydlu rhestr gliriach o'r defnyddiau arfaethedig o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid ar gyfer PARNUTS trwy ddarparu diwygiad i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r nodweddion maethol hanfodol a'r datganiadau labelu.</p> <p>Bu'n rhaid egluro'r disgrifiadau cyffredinol iawn o nifer fach o PARNUTS trwy gynnwys manylebau mwy penodol i alluogi awdurdodau i wirio y byddai rhai cynhyrchion yn cyflawni eu diben maethol penodol ac i ddarparu canllawiau cliriach i fusnesau sy'n dymuno rhoi PARNUTS ar y farchnad.</p> <p>Darperir ar gyfer cyfnod pontio hir yn y ddeddfwriaeth newydd a bwriad hyn yw lleihau'r risg y bydd yn rhaid tynnu cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliad newydd oddi ar y farchnad. Gellir parhau i roi bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol sydd wedi'i labelu cyn 25 Mawrth 2022 yn unol â'r rheolau sy'n berthnasol cyn 25 Mawrth 2020 ar y farchnad, a'i ddefnyddio nes bod y stociau presennol wedi dod i ben.</p>

Ymatebydd	Sylw	Ymateb
	<p>tanseilio gan y newidiadau rheoliadol newydd.</p> <p>I rai o aelodau llai NOAH, mae'r rheoliadau arfaethedig hyn yn newid sylweddol i'r gofynion busnes a allai arwain at golli cynhyrchion PARNUT. Mae angen dull pragmatig gan yr ASB i sicrhau nad yw cynhyrchion sydd wedi'u hen sefydlu yn cael eu tanseilio gan y ffordd y mae'r rheoliad hwn yn cael ei gymhwyso yn y DU.</p>	

Crynodeb o'r newidiadau a wnaed

- Nid oedd angen unrhyw newidiadau i'r Offeryn Statudol o ganlyniad i ymatebion yr ymgynghoriad.

Camau i'w cymryd

- Mae'r ASB yng Nghymru wedi adolygu'r holl ymatebion, ac nid oedd yr un ohonynt yn gwrthwynebu drafftio deddfwriaeth ddomestig i orfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yng Nghymru. Bydd yr ASB yng Nghymru yn bwrw ymlaen â drafftio deddfwriaeth ddomestig sy'n gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yng Nghymru.

Rhestr o ymatebwyr

1. Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid (NOAH)